

Cwnsler dros yr erlyniaeth

*“A phan ddaw, fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod, a chyfiawnder, a barn.”
(adn. 8)*

Beth am ddarllen Ioan 16:1–11 ac yna myfyrio

Yn y darlleniad ddoe, dywedodd Iesu wrth y disgyblion y byddai'r Ysbryd Glân yn gweithredu fel 'cwnsler dros yr amddiffyniaeth' wrth iddynt dystiolaethu iddo. Yma, mae'n dweud wrthynt y bydd yr Ysbryd yn gweithredu fel 'cwnsler dros yr erlyniaeth' yn yr achos yn erbyn y byd. Gan weithredu drwy'r disgyblion, bydd yr Ysbryd yn argyhoeddi'r byd ac yn troi ei farn am Dduw ac Iesu â'i ben i lawr. Oherwydd ei fod yn gwrthod credu yn Iesu bydd pechod mawr y byd yn cael ei ddadlennu'n llwyr. Bydd ei ddedfryd anghyfiawn ar Iesu'n cael ei wrthdroi, a bydd esgyniad Iesu at y Tad yn ei gyfiawnhau'n llwyr. Bydd yr Ysbryd hefyd yn dangos mai'r byd a'i lywodraethwr, nid Iesu, ei wir Arglwydd, sydd wedi'u barnu yn nigwyddiadau'r Pasg.

Dyna dro rhyfeddol ar bethau! Does dim rhyfedd i Iesu ddweud: “y mae'n fuddiol i chwi fy mod i'n mynd ymaith” (adn. 7). Oherwydd ei fod ef wedi dychwelyd at y Tad, daeth yr Ysbryd, ac mae popeth yn edrych yn wahanol i lygaid sy'n llawn o'r Ysbryd. Dyna ryddhad mawr ydy gwybod nad y ni yw'r barnwr: gall materion y farn olaf gael eu gadael yn ddiogel yn ei ddwylo ef yn unig. Byddwn yn falch o glywed hefyd na fydd disgwyl i ni fod yn gwnsleriaid ar ran yr erlyniad, fel pe bai raid i ni argyhoeddi'r byd o uniondeb achos Iesu. Mae rhai Cristnogion, wrth dystiolaethu, yn anelu at argyhoeddi anghredinwyr y dylen nhw dderbyn Crist. Ein nod ydy rhannu'r hyn a wyddon ni am Iesu; gwaith yr Ysbryd Glân ydy argyhoeddi. Does dim disgwyl i ni chwaith wybod yr atebion i'r holl gwestiynau a deflir atom, dim ond gwneud yr hyn mae tyst yn ei wneud orau, sef adrodd am yr hyn a glywodd ac a welodd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 3:6; 3:18–21; 3:31–36; 12:31–33; 12:44–50; 1 Thes. 4:1–8; Jwdas 14–23

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Iesu ac Ioan yn ei addysgu am farn?
2. Beth mae Paul yn ei ddweud am gosb a'r Ysbryd Glân?

Gweddi

Fy Nhad a'm Duw, helpa fi i ddeall hyn yn iawn: fy nhasg i yw rhannu'r hyn a wn i am Iesu – gwaith yr Ysbryd Glân ydy argyhoeddi. Na foed i mi fyth anghofio mai tyst ydw i, nid cwnsler ar ran yr erlyniad. Yn enw Iesu. Amen.